

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Helen Mona Rossington (Llanfair), Trefor Jones a Menna Owen (Cefn Meiriadog), a Harold Pierce (Llanefydd), y pedwar ohonynt yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Fe'u cyflwynwn hwy a'u teuluoedd, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal Duw. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal a gweddiwn y cânt adferiad iechyd buan iawn.
- Parhawn i gofio am bawb arall sy'n hiraethu am anwyliaid. Mae'n dymuniadau yr un modd iddynt hwythau adnabod tangnefedd a Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Oedfa'r Bore

Cofiwch wrando ar Oedfa'r Bore o Fro Aled ar Radio Cymru HEDDIW am 12:00 dydd. (Gall y rhai sy'n codi hefo'r wawr ei chlywed am 5:00(!) neu gallwch wrando eto ar wefan Radio Cymru unrhyw amser yn ystod y 7 diwrnod nesaf.)

Yn eisiau

Os oes gan rywun sgrîn fflat cyfrifiadurol nad ydych ei angen mwyach, byddai Aneurin, Rhodri neu Mair yn falch o glywed gennych. (Rhifau ffôn tros y dudalen.)

I ddod

- **Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala** - Chwefror 16eg-19eg. Cost: £65 y person a £32.50 ar gyfer ail berson o'r un teulu, ond bydd gostyngiad pellach o £10 i bob person ifanc o'r Ofalaeth. Yn ogystal â dysgu mwy am Iesu, bydd gweithgareddau amrywiol – rhaffau uchel, saethu paent, gladiators, noson ffilm, noson dalent... a lot o hwyl! Ffurflenni a mwy o wybodaeth ar gael trwy ffonio Rhodri (870522 / 07814 660291). Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd a'i dychwelyd i Rhodri hefo blaendâl o £10 erbyn Chwefror 3ydd.
- Bydd **Chwiorydd Eglwysi Bro Aled** yn cyfarfod yn Llanefydd nos Fawrth, Chwefror 21ain am 7.00 gyda Dr Mari Lloyd Williams yn annerch. Thema ei sgwrs fydd "Creu Cymunedau sy'n dosturiol".
- **Cyflymu Tua'r Nod** – Yr ail o'r cyfarfodydd i holl flaenoriaid y Fro ac i unrhyw un arall sydd â diddordeb i ddod i ddeall mwy am weledigaeth y Fro a gwaith yr eglwys, nos Fawrth, Chwefror 28ain yng Nghapel Henllan am 7.30.
- **LLANW** - Gŵyl deuluol yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg ar gyfer Cristnogion led-led Cymru – plant, ieuentid, teuluoedd, myfyrwyr, pobl sengl a pharau o bob oed! Mwy o fanylion ar y wefan www.llanw.org neu drwy holi Rhodri Glyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Ionawr 2012

Cofiwch wrando ar Oedfa'r Bore ar
Radio Cymru HEDDIW am 12:00
... o Fro Aled!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Heno 'ma yn Oedfa'r Fro rydym yn croesawu Clyde a Jan Briggs atom i rannu eu profiad o weithio hefo'r elusen Gristnogol "Open Doors". Gobeithio y medrwc ddod atom i glywed sut y mae'r elusen yma yn helpu Eglwysi a Christnogion sy'n tystio mewn amgylchiadau o wrthwynebiad ac erledigaeth. 'Dydi pob Cristion ddim yn mwynhau y rhyddid sydd ganddom ni ac mae'n gyfrifoldeb ac yn fraint i ni weddio gyda nhw, a cheisio ffyrdd i'w cefnogi.

Rydych wedi darllen sawl gwaith rwy'n siŵr yr adnod yma ar ddiwedd y Gwynfydau: "Gwyn eich byd pan fydd pobl yn eich gwaradwyddo a'ch erlid, ac yn dweud pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn, o'm hachos i. Llawenhewch a gorfoleddwch oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn y nefoedd; felly yn wir yr erlidiwyd y proffwydi oedd o'ch blaen chwi." (Mathew 5:11-12) Fe ddaw ystyr yr adnod yn fyw i ni heno.

Mae gwreiddiau 'Open Doors' yn mynd yn ôl i'r pumdegau pryd y cychwynnodd y Brawd Andreas gario Beiblau ar draws y ffin i wledydd comiwnyddol Dwyrain Ewrop. Efallai i chi weld y llyfr 'Brother Andrew – God's Smuggler' oherwydd daeth yn un o'r llyfrau Cristnogol mwyaf poblogaidd erioed. Bellach mae'r elusen yn gweithio i gefnogi eglwysi sy'n wynebu gormes a gwna hynny mewn dros 50 o wledydd y byd. Mae ganddynt bwyslais ar weddi, megis y gadwyn weddi dair blynedd a fu ganddynt dros wledydd Corea.

Defnyddiwn y rhyddid sydd gennym ni felly i ddewis dod heno – mewn heddwch - i addoli ac i ddysgu hefo'n gilydd a cheisiwn fendith Duw ar bobl 'y Drysau Agored' a'r rhai sy'n cael eu cynorthwyo ganddynt.

Heddiw hefyd bydd darllediad o'r Fro ar Radio Cymru gan ein bod wedi bod yn recordio Oedfa'r Bore yr wythnos hon. Gobeithio y caiff pawb sy'n gwrandio fendith o wrando – y thema ydi'r saith dywediad 'Myfi Yw' o eiddo'r Arglwydd Iesu ac mae 'na dystiolaethau grymus gan Haf a Dafydd, Elen a Celfyn i waith gras wedi eu cynnwys yn yr Oedfa. Diolch i bawb a fu wrth y gwaith o baratoi a chyflwyno ar air ac mewn emyn.

Llawenydd yn wir, testun diolchgarwch ac arwydd pellach o ras Duw ydi medru cyhoeddi ein bod wedi dewis diaconiaid newydd i Eglwys Annibynnol Llansannan. Rhoddion Duw i'w Eglwys ydi diaconiaid a diolchwn iddo am ein harwain ac am iddynt ymateb i'r alwad.

Croeso i oedfaon amrywiol y dydd!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, a bydd Clyde a Jan Briggs yn rhoi cyflwyniad i waith *Open Doors UK*, elusen Gristnogol sy'n gwasanaethu Cristnogion sy'n cael eu herlid mewn gwledydd eraill. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. *Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274) neu Hafwen (813445), os gwelwch yn dda.*
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn y Festri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Cyflymu Tua'r Nod** yng Nghapel Henllan am 7.30. Y cyntaf mewn cyfres fer o gyfarfodydd i holl flaenoriaid y Fro ac i unrhyw un arall sydd â diddordeb i ddod i ddeall mwy am weledigaeth y Fro a gwaith yr eglwys.
- Gwener - Sul • **Penwythnos i blant Gofalaeth Bro Aled rhwng 8-11 oed yng Ngholeg y Bala.** Cysylltwch â Haf (582215) neu Rhodri (870522) am fwy o wybodaeth.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac yn derbyn diaconiaid newydd i wasanaethu'r eglwys Annibynnol, Hiraethog, sy'n rhan o Eglwysi Unedig Llansannan. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Thema yn Henllan am 10.00 ac fe wneir casgliad arbennig ar gyfer Cyngor Alcoholiaeth. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Mr David Owens yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau